



Cadeiryddion Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 16eg, 2018

Annwyl Gadeirydd,

Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

Yn dilyn ein trafodaethau yn Fforwm y Cadeiryddion, a thrafodaethau tebyg yn y Pwyllgor Busnes ynglŷn â llwyth gwaith tebygol y Cynulliad o ran Brexit, rwy'n ysgrifennu fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad i ofyn ichi gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio adnoddau a senarios. Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ymwneud â gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit, ond mae cyfran sylweddol o adnoddau'r sefydliad yn ymroddedig i'ch Pwyllgorau, ac rwyf am sicrhau ein bod yn cynllunio'n briodol i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

Rwy'n gwerthfawrogi bod nifer o Bwyllgorau eisoes wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol ar faterion sy'n ymwneud â Brexit. Er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y cam nesaf o waith craffu, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, gan weithio gyda'ch clerod a thîm integredig o swyddogion, ac mewn ymgynghoriad ag Aelodau eich Pwyllgor, ystyried y papur a gyflwynwyd yn Fforwm y Cadeiryddion (rwyf wedi'i atodi er gwybodaeth – Saesneg yn unig) a rhoi gwybod imi eich safbwynt diweddaraf, yn seiliedig ar yr hyn a wyddom hyd yma, ar y pwyntiau allweddol a ganlyn:

1. I ba raddau y mae Brexit yn debygol o effeithio ar waith eich Pwyllgor, h.y.:
 - materion Brexit o fewn eich cylch gorchwyl a fydd naill ai'n amodol ar weithdrefnau'r Cynulliad neu wedi'u nodi fel blaenoriaethau i'w harchwilio gan y Pwyllgor; a
 - p'un a yw gwaith Brexit yn debygol o ddisodli ymchwiliadau a gweithgareddau eraill yr oeddech wedi'u cynllunio, neu a oes blaenoriaethau eraill y bydd yn rhaid eu hystyried ochr yn ochr â materion Brexit o ystyried hanfodion eraill (e.e. ymrwymadau i randdeiliaid neu ddeddfwriaeth y Llywodraeth).



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

2. Unrhyw faterion sy'n ymwneud â chapasiti't Aelodau a'r Pwyllgorau y gallwch eu rhagweld, megis amserlennu cyfarfodydd, ac aelodaeth. Gall y Pwyllgor Busnes ystyried aildrefnu amseroedd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn os bydd angen.

Bydd swyddogion y Comisiwn yn ystyried eich barn wrth roi cyngor imi ar adnoddau, yn enwedig p'un a yw'r cyflenwad presennol o staff sy'n cefnogi pob pwyllgor:

- yn debygol o fod yn ddigonol;
- yn annhebygol o fod yn annigonol; neu
- yn gallu cael ei adleoli mewn sefyllfa ddifrifol i gefnogi'r Aelodau wrth ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â Brexit.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y sefyllfa'n symud yn gyflym ac mae cryn dipyn o ansicrwydd. Er hynny, credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn cynnal deialog ac yn cynllunio'n synhwyrol gyda'n gilydd i sicrhau bod y Cynulliad mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r ystod o heriau sy'n ein hwynebu.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 4 Mai.

Rwy'n copio'r llythyr hwn at Reolwyr Busnes a Chomisiynwyr y Cynulliad.

Yn gywir,

Elin Jones AM
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403